O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 1086 (Cy.134)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 19, Cyffordd Llandudno, a Chyffordd 23, Llanddulas, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

*Gwnaed* *13 Ebrill 2012*

*Yn dod i rym* *23 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Ebrill 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 19, Cyffordd Llandudno, a Chyffordd 23, Llanddulas, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 23 Ebrill 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 19 a Chyffordd 23 ym Mwrdeistref Sirol Conwy, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feiciau pedal, na pheri i unrhyw feiciau o'r fath gael eu reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Mae darpariaethau Rheoliadau Ffordd Arbennig (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984**(3)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro, i’r graddau y maent yn gymwys i’r darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, ar yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**9.** Mae darpariaethau Rheoliadau Ffordd Arbennig (Bae Colwyn i Lan Conwy) 1995**(4)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro, i’r graddau y maent yn gymwys i’r darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, ar yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 13 Ebrill 2012

*G R Morgan*
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i'r Ddeddf honno, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1984/1719
**(4)** O.S. 1985/824

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 23, Llanddulas, hyd at ganolbwynt Cyffordd 22, Hen Golwyn.

## ATODLEN 2

### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 22, Hen Golwyn, hyd at ganolbwynt Cyffordd 19, Cyffordd Llandudno.

2. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 22, Hen Golwyn.

3. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 21, Bae Colwyn.

4. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 20, Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn.